# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Mai 2017

Amser: 08.30 - 09.08

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai pob pleidlais mewn perthynas â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

- Cwtogodd y Llywodraeth yr amser a neilltuwyd ar gyfer trafodion Cyfnod 3 o dair awr i ddwy awr.

- Byddai egwyl o 10 munud cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

Nododd y Rheolwyr Busnes hefyd y bydd y pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 7 Mehefin 2017 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

### 3.4 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol Aelod - Dewis Cynnig ar gyfer y Ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer y ddadl ar 17 Mai.

> **NDM6301 Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):**
>
> Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
>
> 1. Yn nodi cynnig ar gyfer gwelliant i Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
>
> 2. Yn nodi mai diben y gwelliant fyddai gwahardd hysbysebu eiddo yn ddi-rent gan landlordiaid sy'n disgwyl cydnabyddiaeth am hyn ar ffurf manteision rhywiol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r ddadl nesaf ar gynnig deddfwriaethol Aelod ar gyfer 12 Gorffennaf 2017 ac adolygu'r weithdrefn yn nhymor yr hydref.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rhaglen Ddeddfwriaethol y DU 2016-2017 - Tabl Diweddaraf y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol

*Rhaglen Ddeddfwriaethol y DU 2016-2017 - Tabl Diweddaraf y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol*

- Nododd y Pwyllgor Busnes bapur gan Arweinydd y Tŷ yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt Biliau'r DU a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines y mae'n debyg y bydd angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Effaith ymadawiad Aelod â grŵp gwleidyddol

Trafododd y Rheolwyr Busnes bapur ynghylch y goblygiadau i'r Pwyllgorau yn sgil ymadawiad Mark Reckless â grŵp UKIP.  Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud pob penderfyniad ynghylch y newid ar yr un pryd, a hynny maes o law.

Bydd y Rheolwyr Busnes yn hysbysu'r Llywydd pan fyddant mewn sefyllfa i drafod y mater eto yn y Pwyllgor.

## Unrhyw fater arall

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan Jane Hutt i amserlennu'r cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ar 21 Mehefin fel yr eitem olaf cyn y Ddadl Fer ar y diwrnod hwnnw gan ei fod allan o'r wlad ar fusnes y Llywodraeth, gan ddychwelyd i Gaerdydd yn gynnar yn y prynhawn.